

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Clinig / Clinig Enwaedu Transcend,
Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 05 Hydref 2022

Dyddiad cyhoeddi: 06 Ionawr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80535-219-8

© Hawlfraint y Goron 2022

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
Ansawdd Profiad y Claf.....	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4. Y camau nesaf	18
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	20
Atodiad C - Cynllun gwella.....	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig / Clinig Enwaedu Transcend, Caerdydd ar 05 Hydref 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac un Adolygydd Cymheiriaid Clinigol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gawsant yn y clinig.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion pan oeddent yn cael eu gweld yn y clinig. Roedd trafodaethau â'r person cofrestredig yn dangos bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn y clinig mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau pobl.

Roedd gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion a/neu eu gofalwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd i'w helpu i ddeall y triniaethau enwaedu sy'n cael eu cyflawni yn y clinig. Cafodd trefniadau addas ar gyfer cael cydsyniad dilys gan y cleifion cyn iddynt gael triniaeth eu disgrifio a'u dangos.

Roedd gan y clinig broses addas ar waith i'r cleifion neu eu gofalwyr roi adborth am eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth. Roedd crynodeb o'r adborth ar gael yn y canllaw i gleifion i bobl ei weld.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Dylai'r person cofrestredig ar gyfer y clinig ystyried ffyrdd o helpu unigolion a allai fod yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Nododd y cleifion fod y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig yn 'dda iawn'
- Roedd gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion a/neu eu gofalwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd i'w helpu i ddeall y triniaethau enwaedu sy'n cael eu cyflawni yn y clinig
- Roedd adborth rheolaidd yn cael ei gasglu gan y cleifion ac roedd ar gael i bobl ei weld.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y clinig wedi rhoi trefniadau addas ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y rhain yn cael eu hategu gan nifer o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol perthnasol.

Roedd amgylchedd y clinig yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Ar y cyfan, roedd trefniadau a phrosesau addas ar waith i atal a rheoli heintiau ac ar gyfer dihalogi'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y clinig. Roedd trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith i leihau'r risg o groes-heintio o'r cyfarpar a ddefnyddir i atal plant ifanc (er mwyn sicrhau eu diogelwch) yn ystod eu triniaeth enwaedu. Fodd bynnag, nid oedd modd glanhau a dihalogi'r cyfarpar hwn yn hawdd rhwng cleifion. Yn ogystal, nid oedd dogfennaeth yn cael ei chwblhau i ddangos pryd roedd yr ystafell trin cleifion yn cael ei glanhau.

Roedd y meddyginiaethau a ddefnyddiwyd yn y clinig yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion yn cael eu cadw at ddibenion archwilio i ddangos nifer y meddyginiaethau a'r math o feddyginiaethau a oedd yn cael eu derbyn yn y clinig ac yn cael eu gwaredu gan y clinig.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant diogelu oedolion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar lefel briodol i'w rôl.

Gwelsom fod y cofnodion a oedd yn cael eu cadw yn y clinig yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Dylai'r person cofrestredig barhau â'i ymdrechion i leihau'r risg o groes-heintio o'r cyfarpar a ddefnyddir i atal plant
- Mae angen i'r person cofrestredig gymryd camau addas i ddangos bod amserlenni glanhau ar waith a'u bod yn cael eu dilyn
- Mae angen i'r person cofrestredig gymryd camau addas i ddangos nifer y meddyginiaethau a'r math o feddyginiaethau sy'n cael eu derbyn yn y clinig ac yn cael eu gwaredu gan y clinig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amgylchedd y clinig yn lân ac mewn cyflwr da
- Roedd gan y clinig amrywiaeth o bolisiau perthnasol a chyfredol ar waith i helpu'r staff wrth eu gwaith
- Roedd y cofnodion yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Y darparwr a rheolwr y clinig oedd y person cofrestredig ac felly roedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd ac am weithrediad cyffredinol y clinig. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith er mwyn helpu i

sicrhau bod y clinig yn gweithredu'n effeithiol. Gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Roedd gwybodaeth berthnasol am y clinig a'r gwasanaethau a gynigir ganddo ar gael mewn datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion. Fodd bynnag, roedd angen eu diwygio a'u diweddarau er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

Roedd gweithdrefn addas ar waith ar gyfer cydnabod cwynion ac ymdrin â nhw. Gwelsom fod trefniadau da ar waith i gofnodi digwyddiadau a'u monitro. Roedd amrywiaeth o hyfforddiant ar gael i'r staff ar bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau yn y clinig ac roeddent wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol.

Gwelsom fod gwiriadau wedi cael eu cynnal fel rhan o'r broses o recriwtio staff. Fodd bynnag, nid oedd yr holl ddogfennaeth na gwybodaeth sydd eu hangen o dan y rheoliadau mewn perthynas â'r staff a oedd yn gweithio yn y clinig ar gael.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Mae angen i'r person cofrestredig ddiwygio'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau
- Mae angen i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod y ddogfennaeth a'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau mewn perthynas â'r staff ar gael.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth fod polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig yn cael eu hadolygu bob blwyddyn
- Roedd hyfforddiant cyfredol ar gael i'r staff ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau, ac roeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant hwnnw.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd tîm y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion (neu eu gofawyr) er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Derbyniwyd cyfanswm o 16 o holiaduron wedi'u cwblhau. Nid atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn.

Pan ofynnwyd iddynt am eu barn gyffredinol am y gwasanaeth, nododd 14 ohonynt fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' ac nid atebodd dau ohonynt y cwestiwn. Gwnaeth un claf y sylw canlynol:

“Proffesiynol iawn”

Diogelu a gwella iechyd

Gwelsom wybodaeth ysgrifenedig wedi'i harddangos yn glir yn hysbysu'r cleifion am y rhagofalon a oedd ar waith i atal COVID-19 rhag lledaenu, fel pwysigrwydd gwisgo gorchudd wyneb a golchi a diheintio dwylo.

Nid oedd unrhyw ddeunydd hybu iechyd arall wedi'i arddangos yn y clinig.

Urddas a pharch

Gwelsom fod yr amgylchedd yn golygu y gellid diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Dywedwyd wrthym fod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd preifat. Gwelsom fod yr ystafelloedd hyn a'r ystafell driniaeth wedi'u lleoli ar wahân i'r brif ardal aros ac y gellid cau drysau'r ystafelloedd pan oeddent yn cael eu defnyddio.

Roedd y dderbynfa wedi'i lleoli wrth ymyl yr ystafell aros ac er mai ystafell ar wahân ydoedd, gellid clywed sgysiau ffôn o'r ystafell aros. Dywedwyd wrthym pan oedd y clinig ar agor, fod y teledu yn yr ystafell aros yn darparu sain lefel isel a fyddai'n lleihau'r risg y byddai sgysiau yn cael eu clywed.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd y staff yn eu trin ag urddas a pharch ac a oedd mesurau yn cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd, dywedodd y 12 claf (neu eu gofawyr) a atebodd y cwestiynau hyn yn holiadur AGIC eu bod yn cytuno.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedwyd wrthym y gall cleifion drefnu apwyntiadau naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn i gael eu gweld yn y clinig.

Nid oedd unrhyw gymhorthion ar gael i helpu unigolion a allai fod yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu. Roedd arwyddion a phictogramau i'w gweld yn y clinig er mwyn helpu'r cleifion i ddod o hyd i'r ystafelloedd ymgynghori, y toiledau a'r allanfeydd tân.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am driniaethau enwaedu yn cael ei rhoi i'r cleifion neu eu gofalmwyr ar ffurf taflenni ysgrifenedig, cyflwyniad fideo byr ac ar lafar gan y clinigydd a fyddai'n cyflawni'r driniaeth.

Gwelsom enghreifftiau o'r taflenni ysgrifenedig a oedd yn cael eu rhoi i'r cleifion neu eu gofalmwyr a oedd yn darparu gwybodaeth am anfanteision a manteision posibl y driniaeth, y trefniadau paratoi cyn y driniaeth a gofal ar ôl y driniaeth. Roedd y taflenni hyn ar gael yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys Wrddw, Bengaleg, Perseg, Somalieg, Ffrangeg ac Arabeg.

Disgrifiodd y person cofrestredig broses addas ar gyfer cael cydsyniad dilys gan y cleifion.

Gwnaethom edrych hefyd ar hapsampl o gofnodion pump claf. Gwelwyd tystiolaeth o'r broses ar gyfer cael cydsyniad yn y sampl y gwnaethom edrych arni. Gwelsom fod y rheswm dilys dros y driniaeth, ynghyd â'r cymhlethdodau byrdymor a hirdymor posibl sy'n gysylltiedig â'r driniaeth, wedi cael eu dogfennu fel gwybodaeth a esboniwyd i'r claf neu ei ofalwr.

Dywedodd pob un o'r 16 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd. Yn ogystal, dywedodd yr 16 o gleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall eu gofal iechyd, yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a risgiau a manteision pob triniaeth.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau, roedd pob un o'r 14 o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau hyn yn holiadur AGIC yn cytuno.

Pan ofynnwyd iddynt am y cyfarwyddiadau ôl-ofal, roedd y tri ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn yn holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal o ran sut i atal haint a helpu'r broses wella.

Cynllunio a darparu gofal

Disgrifiodd y person cofrestredig drefniadau addas ar gyfer asesu cleifion cyn cyflawni triniaethau enwaedu, ar gyfer cyflawni'r triniaethau ac ar gyfer rhyddhau cleifion ar ôl iddynt gael triniaeth. Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos tystiolaeth o'r trefniadau hyn.

Dywedwyd wrthym y byddai pob calf sy'n mynychu'r clinig yn cael amser ar gyfer apwyntiad i'w gweld. Pe byddai unrhyw oedi, dywedwyd wrthym y byddai staff yn y clinig yn rhoi gwybod i'r cleifion naill ai cyn iddynt gyrraedd neu os nad oedd hynny'n bosibl, pan oeddent yn y clinig.

Cadarnhaodd yr ymatebion i holiadur AGIC fod y cleifion (neu eu gofalwyr) wedi cael gwybod am ba mor hir y byddent yn debygol o aros cyn cael eu gweld. Dangosodd yr ymatebion hefyd nad oedd yn rhaid i'r cleifion aros yn hir cyn cael eu gweld pan fyddent yn mynychu'r clinig ar gyfer apwyntiad.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd yn amlwg o'n trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig fod gwasanaethau yn cael eu darparu yn y clinig mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau pobl.

Gwelsom fod addasiadau rhesymol wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y clinig yn hygyrch i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn ac i rieni â phlant mewn cadeiriau gwthio.

Dywedodd pob un o'r saith ymatebydd a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (ni waeth beth fo'u hoedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Ni nododd unrhyw un o'r 13 o ymatebwyr a atebodd unrhyw achos o wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn na'i ddefnyddio (ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig).

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Disgrifiodd y person cofrestredig drefniadau addas ar gyfer cael adborth gan y cleifion neu eu gofalwyr. Rhoddwyd enghreifftiau o arolygon boddhad a oedd wedi'u cwblhau i ni a gwelsom eu bod wedi cael eu cynnal yn rheolaidd.

Roedd y trefniadau ar gyfer cael adborth gan gleifion wedi'u disgrifio yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Roedd crynodeb o'r adborth a gafwyd hefyd wedi'i gynnwys yn y canllaw i gleifion i bobl ei weld fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod amgylchedd y clinig mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd asesiad risg ysgrifenedig wedi cael ei gwblhau i nodi peryglon gwirioneddol neu bosibl mewn perthynas â gweithredu'r clinig. Gwelsom ei fod wedi cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd camau i liniau'r risgiau a nodwyd hefyd wedi cael eu cofnodi.

Roedd cyfarpar ar gael i ymateb pe byddai claf yn llewygu yn y clinig. Cadarnhaodd y person cofrestredig fod y cyfarpar a oedd ar gael yn y clinig yn ddigonol o ystyried y math o gleifion yr oedd y clinig yn darparu gwasanaethau iddynt. Dylai'r person cofrestredig ffurfioli'r broses hon ar gyfer gwneud penderfyniadau o fewn asesiad risg ysgrifenedig addas neu fel rhan o'r polisi ysgrifenedig.

Roedd polisi dadebru ysgrifenedig cyfredol ar waith ac roedd wedi cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywedwyd wrthym ei fod wedi'i ategu gan weithdrefn ysgrifenedig i'r staff ei dilyn pe byddai claf yn llewygu, a bod copïau o'r weithdrefn honno ar gael yn yr ystafell trin cleifion a'r ystafelloedd ymgynghori.

Gwelsom fod y staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig pe byddai claf yn llewygu, y byddai'r staff yn cysylltu â'r gwasanaethau brys.

Pan ofynnwyd iddynt am y cyfleusterau yn y clinig, dywedodd pob un o'r 10 claf (neu eu gofawyr) a atebodd y cwestiynau hyn yn holiadur AGIC eu bod o'r farn bod digon o seddau yn yr ardal aros a bod toiledau/cyfleusterau golchi dwylo addas ar gael gerllaw.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisi atal a rheoli heintiau cyfredol ar waith yn y clinig. Cadarnhawyd gennym hefyd fod gweithdrefnau ar waith ar gyfer glanhau a dihalogi'r amgylchedd a'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio. Roedd yr amgylchedd wedi'i ddodrefnu er mwyn gallu glanhau'r ardaloedd clinigol yn effeithiol.

Pan ofynnwyd iddynt am lendid yr amgylchedd, dywedodd 15 o'r 16 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn holiadur AGIC fod y lleoliad yn 'lân iawn' a dywedodd un ei fod yn 'eithaf glân'.

Pan ofynnwyd iddynt am fesurau rheoli COVID-19, dywedodd 15 o'r 16 wrthym eu bod o'r farn bod mesurau yn cael eu dilyn lle y bo'n briodol ac nid oedd dau ohonynt yn gwybod neu nid oeddent wedi sylwi.

Nid oedd dogfennaeth, fel amserlenni glanhau, yn cael ei chwblhau i ddangos pryd roedd yr ystafell trin cleifion yn cael ei glanhau.

Gwelsom nad oedd modd glanhau a dihalogi'r cyfarpar a ddefnyddir i atal plant bach (er mwyn sicrhau eu diogelwch) yn ystod eu triniaeth enwaedu yn hawdd rhwng cleifion. Roedd yn amlwg o'n trafodaethau â'r person cofrestredig fod ystyriaeth ofalus wedi cael ei rhoi i leihau'r risg o groes-heintio wrth ddefnyddio'r cyfarpar. Disgrifiodd y person cofrestredig y trefniadau a roddwyd ar waith i leihau'r risg. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai'r person cofrestredig barhau â'i ymdrechion yn hyn o beth.

Roedd offer y gellir ei aildddefnyddio yn cael ei ddefnyddio yn y clinig a disgrifiwyd proses ar gyfer ei lanhau a'i ddihalogi rhwng cleifion. Gwelsom fod archwiliadau dyddiol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar dihalogi er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r paramedrau cywir ar gyfer sterileiddio offer. Gwelsom dystiolaeth hefyd i ddangos ei fod wedi cael ei wasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn cadarnhau ei fod yn gweithio'n iawn.

Roedd yr offer yn cael ei lanhau yn yr ystafell trin cleifion. Yn ddelfrydol, dylid ymgymryd â'r gwaith hwn mewn ystafell ar wahân er mwyn lleihau achosion o groes-heintio. Esboniodd y person cofrestredig nad oedd hyn yn bosibl o ystyried cynllun yr adeilad. Fodd bynnag, disgrifiwyd mesurau rheoli a oedd wedi'u rhoi ar waith i leihau'r risgiau yn hyn o beth.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod polisi diogelu ysgrifenedig cyfredol ar waith yn y clinig. Byddai'n fuddiol cynnwys mwy o fanylion am arwyddion cam-drin a'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am achosion o gam-drin.

Y person cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu dynodedig ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant ar lefel briodol. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant pedwar aelod o'r staff ac roedd tri wedi cwblhau hyfforddiant ar lefel briodol ar gyfer eu rôl yn y clinig.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar waith yn y clinig.

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd y gellir ei gloi ac ar dymheredd priodol.

Yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom, roedd alergeddau hysbys a oedd gan gleifion wedi cael eu cofnodi. Roedd y cofnodion hefyd yn cynnwys gwybodaeth yn nodi enw, dos, dyddiad ac amser y meddyginiaethau a roddwyd yn ystod triniaethau.

Dywedwyd wrthym nad oedd cyffuriau a reolir yn cael eu defnyddio na'u storio yn y clinig.

Nid oedd cofnod yn cael ei gadw o'r meddyginiaethau a dderbyniwyd yn y clinig na'r meddyginiaethau a waredwyd gan y clinig.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y clinig gyfarpar i ddarparu gwasanaethau yn y clinig. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cadarnhaodd y person cofrestredig fod technegau safonol ar gyfer cyflawni triniaethau enwaedu, dim ond o dan anaesthetig lleol, yn cael eu cyflawni yn y clinig.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn cynnwys nodiadau manwl am y triniaethau enwaedu a gyflawnir. Gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig i ddangos bod claf wedi cael ei atgyfeirio'n briodol at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall pan nododd y clinigydd nad oedd y driniaeth yn addas i'w chyflawni yn y clinig.

Lle roedd y clinigydd o'r farn bod angen gwneud hynny, roedd cyfarpar yn cael ei ddefnyddio i atal plant yn ystod eu triniaeth enwaedu er mwyn sicrhau diogelwch y claf. Roedd yn amlwg o'n trafodaethau â'r person cofrestredig fod ystyriaeth ofalus wedi cael ei rhoi i ddefnyddio dulliau amgen. Fodd bynnag, ystyriwyd mai dyma oedd y dull mwyaf addas o ran sicrhau diogelwch cleifion.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau yn y clinig.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Disgrifiodd y person cofrestredig broses ar gyfer adolygu adborth gan gleifion fel rhan o'r system ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella ansawdd. Cawsom enghreifftiau o adolygiadau o adborth gan gleifion a oedd yn dangos y broses hon ar waith.

Rheoli cofnodion

Dywedwyd wrthym fod yr holl gofnodion cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith o ran sicrhau diogelwch y cofnodion hyn. Roedd y sampl a welsom yn glir ac yn drefnus. Roedd pob cofnod wedi'i ddyddio, ac wedi'i lofnodi gan y clinigydd.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw ar bapur a gwelsom eu bod yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Darparwr y clinig oedd y rheolwr hefyd ac felly roedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd ac am weithrediad cyffredinol y clinig. Roedd yr unigolyn wedi'i gofrestru ag AGIC fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Y person cofrestredig oedd yr unig glinigydd oedd yn gweithio yn y clinig a oedd yn cyflawni triniaethau enwaedu yn y clinig.

Y person cofrestredig oedd yn gyfrifol am ddrafftio ac adolygu polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig y clinig er mwyn sicrhau bod y clinig yn gweithredu'n effeithiol. Gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd staff a oedd yn dangos bod gwybodaeth sy'n berthnasol i'r clinig yn cael ei rhannu'n rheolaidd â'r tîm staff.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion mewn perthynas â'r clinig wedi cael eu paratoi. Roeddent yn darparu gwybodaeth am y clinig a'r gwasanaethau roedd yn eu cynnig. Fodd bynnag, nid oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys nifer y staff a oedd yn gweithio yn y clinig ar hyn o bryd, eu cymwysterau perthnasol na'u profiad, ac nid oedd yn cynnwys digon o fanylion am y weithdrefn gwyno.

Roedd y canllaw i gleifion yn cyfeirio'n anghywir at 'Arolygiaeth lechyd Cymru' yn hytrach nag 'Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru' ac nid oedd yn cynnwys digon o fanylion am y weithdrefn gwyno. Yn ogystal, nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys y telerau ac amodau mewn perthynas â'r gwasanaethau i'w darparu na'r swm i'w dalu am y driniaeth na'r dulliau talu.

Yn ogystal â'r uchod, roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn cynnwys gwybodaeth groes am y rhesymau pam y caiff triniaethau enwaedu eu cyflawni yn y clinig. Roedd y datganiad o ddiben yn nodi mai dim ond am resymau anfeddygol roedd triniaethau enwaedu yn cael eu cynnig ac roedd y canllaw i gleifion yn nodi eu bod yn cael eu cynnig am resymau anfeddygol a meddygol.

Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC yn cael eu harddangos mewn man amlwg yn y clinig yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar gael yn y clinig. Roedd yn nodi'r terfynau amser ar gyfer ymateb i gwynion a manylion sefydliadau eraill y gallai cleifion gysylltu â nhw i gael cyngor, gan gynnwys manylion AGIC. Nodwyd gennym fod angen diweddarau cyfeiriad e-bost AGIC.

Roedd y tri ymatebydd a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl eu triniaeth.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i gofnodi digwyddiadau a'u monitro. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion digwyddiadau ar gyfer 2021 a 2022. Roeddent yn cynnwys manylion am y digwyddiadau unigol ynghyd â'r camau a gymerwyd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Cadarnhaodd y person cofrestredig fod nifer y staff a'r cymysgedd sgiliau a oedd ganddynt yn addas i ddarparu'r gwasanaethau a gynigir yn y clinig.

Gwnaethom edrych ar hapsampl o gofnodion hyfforddiant ar gyfer pump aelod o'r staff. Gwelsom fod yr aelodau hyn o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rôl yn y clinig.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd polisi recriwtio cyfredol ar waith. Fodd bynnag, nid oedd yn cyfeirio at y ddogfennaeth a'r wybodaeth benodol sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac y mae angen iddynt fod ar gael mewn perthynas â'r staff cyn caniatáu iddynt weithio yn y clinig.

Gwnaethom edrych ar sampl benodol o ffeiliau recriwtio ar gyfer pedwar aelod o'r staff. Gwelsom fod gwiriadau wedi cael eu cynnal, fel cadarnhau manylion adnabod yr unigolion, gofyn am eirdaon ysgrifenedig a gwneud cais am wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) er mwyn sicrhau bod yr unigolion yn addas i weithio yn y clinig. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd fod yr holl ddogfennaeth a gwybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff.

Roedd y ffeiliau ar gyfer dau aelod o'r staff yn cynnwys geirdaon ond nid oedd yn glir ai dau gyflogwr diweddaraf yr unigolion oedd wedi darparu'r geirdaon hyn, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Nid oedd unrhyw eirdaon yn ffeil aelod arall o'r staff. Trafodwyd hyn â'r rheolwr cofrestredig a roddodd esboniad pam nad oedd unrhyw eirdaon ar gael.

Er bod yr holl wybodaeth recriwtio yn dangos tystiolaeth bod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael ei gwblhau, ar gyfer un aelod o'r staff, gwiriad 'sylfaenol' ydoedd, yn hytrach na gwiriad 'safonol' neu 'manylach' fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd pob ffeil recriwtio a welsom fel rhan o'r sampl yn cynnwys copïau o ddisgrifiadau swydd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:

Clinig / Clinig Enwaedu Transcend

Dyddiad yr arolygiad: 05 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig / Clinig Enwaedu Transcend

Dyddiad yr arolygiad: 05 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i helpu unigolion a allai fod yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu.	Rheoliad 9 1(g) Safon 18	Er ein bod wedi ystyried y cyngor a roddwyd, rydym wedi penderfynu, ar ôl trafod yn helaeth, nad oes ei angen ar gyfer ein busnes ar y cam hwn. Mae hyn oherwydd ein bod yn gofyn i'r ddau riant fod yn bresennol. Os oes gan un rhiant unrhyw rai o'r anawsterau a restrir, bydd y rhiant arall yn 'cyfieithu' iddynt. Mae'n ddull syml, ond yn ddull a gaiff ei dderbyn yn dda gan ein cleifion. Os ystyrir bod ein dull gweithredu yn ddiffygiol neu'n annigonol ar unrhyw adeg,	Dr A Khan	I'w ystyried yn y dyfodol

		byddwn yn fwy na pharod i ailystyried y cyngor.		
Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau a'r canlyniadau mewn perthynas â'r cyfarpar / cyffuriau brys a gedwir yn y clinig.	Rheoliad 38	- Mae pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol ar gyfer babanod newydd-anedig, plant ac oedolion. Mae staff y dderbynfa wedi cael yr hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf. - Mae pecyn cymorth cyntaf llawn ar gael - Caiff y cynnwys ei wirio'n rheolaidd - Mae troli dadebru ar gael yn yr ystafell driniaeth - Caiff y troli ei archwilio ar ddechrau pob clinig - Mae gan y clinig gyflenwad o bigiadau adrenalin, pigiadau cloroffenermin a phigiadau decsamethason. Mae gan y clinig gloroffenermin hylifol hefyd. - Cynhaliwyd asesiad risg mewn perthynas ag argaeledd diffibriliwr yn y	Dr A Khan	Ar unwaith

		clinig. Dim ond cleifion iach y mae'r clinig yn eu trin. • Cysylltir â'r gwasanaethau brys (999) os ceir argyfwng sy'n bygwth bywyd.		
Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod amserlenni glanhau ar waith ar gyfer y clinig a'u bod yn cael eu dilyn. Rhaid i hyn gynnwys y trefniadau ar gyfer newid y llenni preifatrwydd yn yr ystafell driniaeth a'r cyfarpar a ddefnyddir i atal plant.	Rheoliad 15 7, 8	Mae amserlen lanhau bellach ar gael i'r clinig cyfan. Yn ogystal, mae amserlen lanhau benodol ar gyfer yr ystafell driniaeth. Bellach, mae gorchudd plastig ar y cyfarpar atal. Caiff y cyfarpar ei lanhau rhwng pob claf. Caiff y llen breifatrwydd yn yr ystafell driniaeth ei golchi unwaith y mis.	Dr A Khan	Ar unwaith
Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos nifer y meddyginiaethau a'r math o feddyginiaethau sy'n	Rheoliad 15 5	Mae gan y clinig lyfr cofnodi meddyginiaeth.	Dr A Khan	Ar unwaith

cael eu derbyn yn y clinig ac yn cael eu gwaredu gan y clinig.				
Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiwygio'r datganiad o ddiben er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y canlynol: - Nifer y staff sy'n gweithio yn y clinig ar hyn o bryd, eu cymwysterau perthnasol a'u profiad - Manylion digonol am y weithdrefn gwyno - Y rhesymau pam y gellir cynnal triniaethau enwaedu yn y clinig. Dylid cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o'r datganiad o ddiben i AGIC.	Rheoliad 6 Rheoliad 8	Mae'r datganiad o ddiben wedi cael ei ddiweddaru.	Dr A Khan	Ar unwaith
Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig roi manylion i AGIC	Rheoliad 7	Mae'r canllaw i gleifion wedi cael ei ddiweddaru.	Dr A Khan	Ar unwaith

am y camau a gymerwyd i ddiwygio'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y canlynol: • Cyfeiriad cywir at Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru • Manylion digonol am y weithdrefn gwyno • Y telerau ac amodau mewn perthynas â'r gwasanaethau i'w darparu a'r swm i'w dalu am y driniaeth a'r dulliau talu • Y rhesymau pam y gellir cynnal triniaethau enwaedu yn y clinig. Dylid cyflwyno fersiwn wedi'i diweddarau o'r canllaw i gleifion i AGIC.	Rheoliad 8			
--	-------------------	--	--	--

Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddiweddarau'r polisi cwynion er mwyn dangos y cyfeiriad e-bost cywir ar gyfer AGIC - AGIC@llyw.cymru	Rheoliad 24	Mae'r ffurflen gwyno yn cynnwys y cyfeiriad e-bost cywir ar gyfer AGIC - agic@llyw.cymru	Dr A Khan	Ar unwaith
Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod geirdaon ysgrifenedig ar gael gan ddau gyflogwr diweddaraf yr unigolion a bod tystysgrif DBS 'safonol' neu 'manylach' ar gael mewn perthynas â'r staff sy'n gweithio yn y clinig neu at ddibenion y clinig.	Rheoliad 21 Atodlen 2	Bydd rheolwr y clinig yn sicrhau bod gan bob cyflogai yn y dyfodol eirdaon gan eu cyflogwr diweddaraf. Mae geirdaon a thystysgrifau DBS safonol bellach ar gael yn ffeil staff y swyddog cadw tŷ.	Dr A Khan	Ar unwaith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Anwar Khan
Teitl swydd: Cyfarwyddwr
Dyddiad: 24/12/2022